# Asesu’r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi’r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae’n ofynnol i’r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o’r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy’n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i’r Cyngor, dan ofynion Safonau’r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o’r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac i sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg. Mae’r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma’n diogelu ac yn hyrwyddo’r defnydd a wneir o’r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i’r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw’r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (CC) |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy’n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy’n cael eu hystyried?

Pwrpas y ddogfen ydi gosod allan amserlen ar gyfer y camau statudol sydd angen ymgymryd a hwy wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Mae’r ddogfen hefyd yn cynnwys cynllun cynnwys cymunedau sydd yn gosod allan sut, pryd ag efo pwy y byddem yn ymgynghori (sydd yn cynnwys mudiadau sydd yn cynrychioli nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg a'r economaidd anfantais).

Mae’r Cynllun Datblygu Lleol (ar ei ffurf derfynol) yn ddogfen bolisi cynllunio sydd yn rhoddi arweiniad o ran llywio penderfyniadau ar gynigion datblygu yn y dyfodol a mynd i’r afael ag anghenion a chyfleoedd yr ardal. Rhaid i'r Cynllun Datblygu Lleol gyfrannu at gyflawni datblygu

cynaliadwy a bod yn gyson ag egwyddorion a'r polisïau cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol. Yn ei hanfod, pwrpas Cynllun Datblygu Lleol yw rhoi arweiniad o ran y mathau o ddatblygiadau sydd yn addas mewn lleoliadau gwahanol. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn glir y dylid gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r polisïau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol oni bai bod yna ystyriaethau cynllunio perthnasol arall.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Heledd Jones, Arweinydd Tîm, Gwasanaeth Polisi Cynllunio.

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn 2.

Mae'r asesiad hyn wedi cael ei addasu yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus. Bydd asesiadau manwl yn cael ei wneud ar y camau o baratoi'r CDLl. Mae posib archwilio Fersiwn 1 o'r ddogfen yma fel rhan o'r pecyn gwybodaeth yn gysylltiedig â'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Trigolion Gwynedd

Pobl sydd wedi dangos diddordeb yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol neu wedi rhoi sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
Mudiadau sy'n cefnogi neu gynrychioli pobl â nodweddion cydraddoldeb penodol â'i aelodau.
Mudiadau Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru.
Mae Atodiad 6 o'r Cytundeb Cyflawni yn gosod allan rhestr budd-ddeiliaid yn llawn.

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni Drafft gofynnwyd a yw'r Cyngor yn ymgynghori gyda'r bobl gywir. Mewn canlyniad i'r cyfnod ymgynghori, mae yna fudd-ddeiliaid ychwanegol wedi cael ei hadnabod. Yn sgil hynny mae rhestr budd-ddeiliaid yn gysylltiedig â pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei addasu.

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda phobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau

**(un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy’n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Yn Atodiad 6 o’r Cytundeb Cyflawni fe amlygir y rhanddeiliaid statudol ynghyd ac anstatudol ble mae’n ddyletswydd cysylltu â hwy a'u hysbysu o’r gwahanol gamau yn gysylltiedig â pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol. O ran y budd-ddeiliaid anstatudol sydd wedi ei hamlygu, mae'r rhain yn cynnwys mudiadau a phartneriaid sydd yn cynrychioli pobl hefo nodweddion gwarchodedig, yr iaith Gymraeg a/neu a chymunedau sy’n byw ag anfantais economaidd. Ymhellach mae gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio fasdata cysylltiadau sydd yn cynnwys manylion unigolion sydd wedi datgan diddordeb yn y Cynllun Datblygu Lleol a’r broses o’i baratoi.

Mae gofyn statudol i ymgynghori a chyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol ar gynnwys y Cytundeb Cyflawni. Fodd bynnag, ystyriwyd fod angen mynd tu hwnt i’r gofyn statudol hyn drwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ehangach.

Codwyd ymwybyddiaeth o’r cyfnod ymgynghori cyhoeddus drwy: -

- Hysbysu rhanddeiliaid statudol ac anstatudol;
- Hysbysu aelodau lleol;
- Hysbysu Cynghorau Cymuned/Tref/Dinas;
- Hysbysu Awdurdodau Lleol cyfagos;
- Hysbysu unigolion/sefydliadau sydd wedi datgan diddordeb yn y Cynllun Datblygu Lleol (basdata cysylltiadau, 1,316 mewn nifer);
- Rhaeadru negeseuon rheolaidd ar wefannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor (Facebook, Instagram a X).

Ymhellach fe sicrhawyd fod y deunydd perthnasol a oedd ei angen er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno sylwadau, hynny yw'r Cytundeb Cyflawni Drafft ynghyd a’r Asesiad Effaith Integredig (gweler Atodiad 3) ar gael i’w archwilio yn y mannau canlynol:-

- Copi caled yn Siop Gwynedd Caernarfon, Dolgellau a Pwllheli;
- Copi Caled yn y llyfrgelloedd cyhoeddus lleol;
- Gwefan y Cyngor

Er hwyluso’r broses o ddarparu sylwadau ar y Cytundeb Cyflawni Drafft fe ddarparwyd ffurflen sylwadau (copi caled a rhyngweithiol). Roedd y ffurflen yn holi barn gyffredinol ar y gwahanol adrannau o’r Cytundeb Cyflawni Drafft, gyda chyfanswm o 9 cwestiwn penodol yn cael ei ofyn. Roedd y saith cwestiwn cyntaf yn gwestiynau cyffredinol mewn perthyna a’r Cytundeb Cyflawni, yna roedd cwestiwn 8 yn benodol ymwneud a ystyried effaith y Cytundeb Cyflawni ar yr iaith Gymraeg a cwestiwn 9 yn ymwneud a’r effaith ar unigolion a nodweddion gwarchodedig a’r economaidd anfantais.

Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus rhwng 26 Hydref 2023 a 7 Rhagfyr 2023. Fe ymatebwyd 14 o unigolion/sefydliadau i’r ymgynghoriad gyda chyfanswm o 37 sylw.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

| |
|---|
| Yn sgil y cyfnod ymgysylltu fe dderbyniwyd sylwadau mewn perthynas â chynnwys y Cytundeb Cyflawni. Mae ystyriaeth wedi cael ei roddi i berthnasedd y sylwadau hynny ac o ganlyniad, pan yn briodol, fe gynigir diwygiadau i gynnwys y Cytundeb Cyflawni. Ystyrir fod y diwygiadau hyn yn ychwanegu gwerth a chywirdeb i'r Cytundeb Cyflawni. Mae posib archwilio'r sylwadau hyn yn yr Adroddiad Ymgynghori (Atodiad 2). |

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

| |
|---|
| Yn unol â'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae'n ofyniad statudol ar awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru i baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer eu hardaloedd. Mae'n rhaid paratoi CC cyn y gellir symud ymlaen i'r broses ffurfiol o baratoi'r CDLl.<br><br>Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn gosod allan y rheoliadau rhaid ei ddilyn wrth baratoi CC.<br><br>Mae paratoi Cynllun Datblygu Lleol yn flaenoriaeth yn Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28. |

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

| |
|---|
| Dim bylchau wedi ei hadnabod. |

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Er fod yna gwestiwn wedi cael ei ofyn yn ymwneud a beth fyddai effaith y Cytundeb Cyflawni ar unigolion sydd a nodweddion cydraddoldeb, ni dderbyniwyd unrhyw sylw yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus mewn perthynas â hil. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Os daw i'r amlwg yn ystod yr ymarferiad ymgynghori dilynol fod yna effaith ar nodweddion penodol hyn byddem yn ystyried sut y gallem fynd ati i osgoi/lliniaru'r effaith hynny. |
| **Anabledd** | Dim | Er fod yna gwestiwn wedi cael ei ofyn yn ymwneud a beth fyddai effaith y Cytundeb Cyflawni ar unigolion sydd a nodweddion cydraddoldeb, ni dderbyniwyd unrhyw sylw yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus mewn perthynas ag anabledd.<br><br>Os daw i'r amlwg yn ystod yr ymarferiad ymgynghori dilynol fod yna effaith ar nodweddion penodol hyn byddem yn ystyried sut y gallem fynd ati i osgoi/lliniaru'r effaith hynny. |
| **Rhyw** | Dim | Er fod yna gwestiwn wedi cael ei ofyn yn ymwneud a beth fyddai effaith y Cytundeb Cyflawni ar unigolion sydd a nodweddion cydraddoldeb, ni dderbyniwyd unrhyw sylw yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus mewn perthynas â rhyw.<br><br>Os daw i'r amlwg yn ystod yr ymarferiad ymgynghori dilynol fod yna effaith ar nodweddion penodol hyn byddem yn ystyried sut y gallem fynd ati i osgoi/lliniaru'r effaith hynny. |
| **Oedran** | Positif | Yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus mynegwyd fod yna ddiffyg darpariaeth tai ar gyfer teuluoedd ifanc y sir. Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei roddi i sut all y Cynllun Datblygu Lleol gyfarch anghenion holl drigolion Gwynedd (o bob oedran) wrth i'r broses o baratoi a llunio'r Cynllun fynd rhagddi.<br><br>Gweler y sylw ac ymateb llawn i'r mater yma yn Atodiad 1 – Adroddiad Ymgynghori. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Er fod yna gwestiwn wedi cael ei ofyn yn ymwneud a beth fyddai effaith y Cytundeb Cyflawni ar unigolion sydd a nodweddion cydraddoldeb, ni dderbyniwyd unrhyw sylw yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol.<br><br>Os daw i'r amlwg yn ystod yr ymarferiad ymgynghori dilynol fod yna effaith ar nodweddion penodol hyn byddem yn ystyried sut y gallem fynd ati i osgoi/lliniaru'r effaith hynny. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Derbyniwyd sylw oedd yn ymwneud a'r ffaith fod y cyrff a restrir yn Atodiad 6 o'r Cytundeb Cyflawni yn sefydliadau "ymbarél". Nodwyd eu bod yn dymuno cael gwybod am yr holl wybodaeth a allai effeithio ei heglwys.<br><br>Pwysleisir fod yna gyfle i unrhyw fudiad/elusen/unigolyn sydd â diddordeb yn y Cynllun gysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio gyda'i manylion cyswllt. Bydd y manylion hynny'n cael ei ychwanegu i fasdata cysylltiadau'r Cynllun Datblygu |

| | | |
|---|---|---|
| | | gan olygu eu bod yn cael ei hysbysu yn ystod y cyfnodau allweddol o baratoi'r Cynllun a'u cyfleoedd) i roi mewnbwn i'r broses.<br><br>Gweler y sylw ac ymateb llawn i'r mater yma yn Atodiad 1 – Adroddiad Ymgynghori. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Er fod yna gwestiwn wedi cael ei ofyn yn ymwneud a beth fyddai effaith y Cytundeb Cyflawni ar unigolion sydd a nodweddion cydraddoldeb, ni dderbyniwyd unrhyw sylw yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus mewn ailbennu rhywedd.<br><br>Os daw i'r amlwg yn ystod yr ymarferiad ymgynghori dilynol fod yna effaith ar nodweddion penodol hyn byddem yn ystyried sut y gallem fynd ati i osgoi/lliniaru'r effaith hynny. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Er fod yna gwestiwn wedi cael ei ofyn yn ymwneud a beth fyddai effaith y Cytundeb Cyflawni ar unigolion sydd a nodweddion cydraddoldeb, ni dderbyniwyd unrhyw sylw yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus mewn perthynas â beichiogrwydd a mamolaeth.<br><br>Os daw i'r amlwg yn ystod yr ymarferiad ymgynghori dilynol fod yna effaith ar nodweddion penodol hyn byddem yn ystyried sut y gallem fynd ati i osgoi/lliniaru'r effaith hynny. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Er fod yna gwestiwn wedi cael ei ofyn yn ymwneud a beth fyddai effaith y Cytundeb Cyflawni ar unigolion sydd a nodweddion cydraddoldeb, ni dderbyniwyd unrhyw sylw yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus mewn perthynas â phriodas a phartneriaeth sifil.<br><br>Os daw i'r amlwg yn ystod yr ymarferiad ymgynghori dilynol fod yna effaith ar nodweddion penodol hyn byddem yn ystyried sut y gallem fynd ati i osgoi/lliniaru'r effaith hynny. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Roedd cwestiwn penodol wedi ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Derbyniwyd sylwadau ar yr angen sicrhau fod effaith y Cynllun ar y Gymraeg yn derbyn ystyriaeth lawn. Pwysleisir fod ystyried effeithiau tebygol y CDLl ar y Gymraeg yn elfen hanfodol o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae Llawlyfr CDLl yn annog ymgymryd â'r dull integredig o asesu effaith wrth ymgymryd â pharatoi CDLl, gan nodi fod yn cynnig cyfle i gynnal asesiad sydd yn fwy tryloyw, cyfrannol a cynhwysfawr.<br><br>Nid oes penderfyniad wedi ei wneud hyd yma ynglŷn â chynnal asesiad integredig neu gynnal asesiad ieithyddol unigol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ymhellach fe dderbyniwyd sylw oedd yn ymwneud a sicrhau fod yna drafodaethau yn cael ei gynnal gyda Fforwm Iaith Gwynedd. Bydd cyfleoedd priodol i drafod a'r Fforwm Iaith yn cael ei fanteisio arno.<br><br>Gweler y sylw ac ymateb llawn i'r mater yma yn Atodiad 1 – Adroddiad Ymgynghori. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Roedd cwestiwn penodol wedi gynnwys o fewn yr holiadur ynglŷn a ystyried effaith y Cytundeb Cyflawni ar unigolion sydd a nodweddion gwarchodedig neu rai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol,<br><br>Fel rhan o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, derbyniwyd sylw ynglŷn â'r diffyg ystyriaeth oedd wedi ei roddi yn y Cynllun presennol i anghenion a rôl holl gymunedau Gwynedd ac yn benodol De Gwynedd. Mae'r sylw hyn yn gynamserol. Bydd manylder cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys yr hierarchaeth aneddleoedd a'r strategaeth twf yn destun ystyriaeth ac ymgynghoriad mewn dogfennau cysylltiedig dilynol.<br><br>Bydd y broses o dderbyn mewnbwn cymunedau i'r dogfennau dilynol hyn yn dilyn y Cynllun Cyfranogi Cymunedau sydd wedi ei gynnwys yn y Cytundeb Cyflawni.<br><br>Mae sylw yn ogystal wedi ei gyflwyno ynglŷn â sicrhau fod mewnbwn yn cael ei dderbyn gan gymunedau wrth baratoi'r Cynllun. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau fod hynny yn cael ei gyflawni. Ymhellach mae cyfle i unrhyw unigolion/fudiad sydd â diddordeb yng Nghynllun Datblygu Lleol i gynnwys eu manylion ar ein basdata cysylltiadau a olygai y byddem yn derbyn gohebiaeth ynglŷn ag unrhyw gyfnodau ymgynghori cyhoeddus yn y dyfodol.<br><br>Derbyniwyd sylw sydd yn ymwneud a sicrhau fod cyfnodau ymgynghori cyhoeddus yn cael ei gynnal am gyfnod sydd yn hirach na 6 wythnos, a hynny yn benodol yng nghyswllt sicrhau ei fod yn rhoi cyfleoedd i'r rhai sydd yn byw ag anfantais economaidd gymdeithasol allu ymateb i gyfnodau ymgynghori. . Ble yn briodol ac yn ymarferol bydd ystyriaeth bellach yn cael ei roddi i gynnal cyfnodau ymgynghori cyhoeddus am gyfnodau hirach.<br><br>Fe gyflwynwyd sylw a oedd yn nodi y dylai'r Cynllun a'r anghenion (twf tai) gael ei arwain gan y gymuned. Mae derbyn mewnbwn y cyhoedd a chymunedau Gwynedd yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhan greiddiol o'r broses o baratoi'r Cynllun. Rôl y Cyngor fydd ystyried beth yw anghenion a dyheadau cymunedau Gwynedd a cheisio cyflawni'r weledigaeth hynny o fewn y Cynllun, cyn belled a bod hynny yn gyson ag arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol.<br><br>Gweler y sylw ac ymateb llawn i'r mater yma yn Atodiad 1 – Adroddiad Ymgynghori. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Posib | Ar y cam yma wedi gwneud bob dim ymarferol bosib. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Posib | Ar y cam yma wedi gwneud pob dim posib i sicrhau hyn. Roedd yr ymgynghoriad yn sicrhau fod pobl yn gallu cael mewnbwn a dylanwadu ar benderfyniadau'r Cyngor.<br><br>Mae sylw wedi ei dderbyn i'r cyfnod ymgynghori sydd yn nodi fod cyfnod o 6 wythnos ddim yn ddigonol er mwyn cynnal y cyfnod ymgynghori cyhoeddus. I'r perwyl yma sicrheir bydd pob cyfnod ymgynghori yn cyd-fynd a'r gofynion statudol. Os yn briodol a ble fo'r amserlen yn caniatáu bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei roddi i briodoldeb cynnal yr ymarferiad ymgynghori/ ymgysylltiad cyhoeddus am gyfnod sydd yn hirach na 6 wythnos. |
| **Meithrin perthnasau da** | Posib | Derbyniwyd sylw sydd yn cwestiynu os yw'r Cyngor yn gweithio'n dda hefo'r gymuned a phartneriaid. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn manylu ar y dull ymgysylltu a fwriedir ei gymryd. Bydd unrhyw gyfleoedd i fanteisio ar, |

| | | |
|---|---|---|
| | | a gwella'r dulliau ymgysylltu yn cael ei gweithredu arnynt ble'n briodol ac yn ymarferol. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Gweithredu o fewn polisïau iaith Gymraeg y Cyngor.

Yn dilyn y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus, fe dderbyniwyd sylwadau sydd wedi arwain at gynnal diwygiadau i'r Cytundeb Cyflawni, gan gynnwys ychwanegu eglurder er ei wneud yn eglur y bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn rhoi ystyriaeth i effaith ieithyddol (gweler Atodiad 2).

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun bydd angen sicrhau fod y gofynion perthnasol yn cael ei gyfarch. Bydd asesiad parhaus o'r Effaith ar yr iaith Gymraeg yn cael ei gynnal ac yn rhoi arweiniad ar gynnwys a thrywydd y Cynllun.

Yn unol â'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn gysylltiedig â'r Cytundeb Cyflawni byddem yn manteisio ar unrhyw gyfleoedd i dderbyn mewnbwn gan y cyhoedd a mudiadau/grwpiau diddordeb.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Copïau Papur ar gael yn llyfrgelloedd a Siop Gwynedd i bobl sydd wedi'u hallgau'n ddigidol.

Derbyniwyd sylw yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus sydd yn nodi'r angen i gynnal yr ymarferiad ymgynghori am gyfnod sydd yn hwy na 6 wythnos er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi

| |
|---|
| cyfle priodol i bawb ymateb. Pan yn briodol ac yn bosib bydd ystyriaeth bellach yn cael ei roi i gynnal cyfnodau ymgysylltu am gyfnodau hirach na chwe wythnos. |

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

- Ystyried cynnal cyfnodau ymgynghori perthnasol am gyfnodau hirach na chwe wythnos.
- Ystyried dulliau ymgysylltu amgen.
- Manteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu a'r gymuned.

Rhain yn mynd i dderbyn ystyriaeth cyn mynd ati i gynnal ymarferiad ymgynghori cyhoeddus yn y dyfodol.

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Nid oes unrhyw effaith sylweddol wedi ei hadnabod yn sgil yr ymgynghoriad.

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Nid oes unrhyw effaith sylweddol wedi ei hadnabod yn sgil yr ymgynghoriad.

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | Ia |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |

| | |
|---|---|
| Atal a dileu’r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a’r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae’n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo’r cynllun, pa gamau fyddwch chi’n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Drwy gydol y camau o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol fe fydd Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei baratoi a’i addasu, fel yn briodol. Os bydd unrhyw effaith negyddol yn cael ei hadnabod, bydd mesurau yn cael ei gweithredu er mwyn lliniaru’r effeithiau hynny.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Dim yn berthnasol

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi’n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Ail edrych ac addasu’r Asesiad Effaith drwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a diwygio’r Cynllun Datblygu Lleol a dogfennau paratoi cysylltiedig yn ôl angen.